# Adroddiad Arolygu ar

**Cartref Gofal Erwhir**

**Cartref Preswyl Erwhir**
**29-30**
**Erw Hir**
**Caerfyrddin**
**SA31 1HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

28/01/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Erwhir

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Towy Haven Care Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae naws gynnes a chartrefol i Erwhir; mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno'n briodol a'u goleuo'n dda. Mae dwy lolfa ar gael i bobl, ac mae un yn lolfa dawel i ddewis treulio amser ynddi. Mae angen mân waith ailaddurno neu atgyweirio ar rai rhannau o'r cartref.

Mae gweithwyr gofal yn cael eu rheoli a'u harwain gan reolwr sydd am sicrhau bod pobl yn derbyn gofal o ansawdd da. Mae'r rheolwr yn cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd. Mae tîm y staff yn gwerthfawrogi'r gwaith y maent yn ei wneud trwy ofalu am bobl mewn ffordd gyfeillgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cedwir y cofnodion gofal a chofnodion dyddiol ar system cofnodion electronig. Mae mwyafrif y cofnodion gofal yn gyfredol, ond mae angen gwelliant yng nghofnodion y nodiadau dyddiol.

Mae rhai trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro ansawdd ond mae angen bod yn fwy trylwyr i sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

## Llesiant

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gwelsom ddewis yn cael ei gynnig o ran ble roedd pobl eisiau treulio eu hamser, beth roedden nhw eisiau ei wneud a dewisiadau prydau bwyd. Mae gweithwyr gofal yn trin pobl â pharch ac mae eu barn yn bwysig. Gwelsom weithwyr gofal yn cynorthwyo pobl mewn ffordd ofalgar a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, e.e. defnyddio dewis iaith yr unigolyn. Mae gan weithwyr gofal wybodaeth dda am bobl, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt, eu hoffterau a'u casbethau.

Mae'r cartref yn cynorthwyo pobl i dderbyn ymweliadau gan deulu a ffrindiau; mae ardal benodol yn y cartref ar gyfer ymweliadau. Mae gweithwyr gofal hefyd yn cynorthwyo pobl i ddefnyddio rhwydweithiau galwadau fideo amrywiol yn ogystal â galwadau ffôn i anwyliaid ac oddi wrthynt. Prynodd y cartref ffonau symudol fel y gallai pobl wneud galwadau yn fwy rhwydd, gan gynorthwyo pobl i gael sgyrsiau preifat.

Gan fod cyfyngiadau wedi bod ar weithgareddau ac ymweliadau allan yn ystod y pandemig, mae gweithwyr gofal wedi addasu eu cymorth i fodloni canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda llawer o weithgareddau dan do ac unigol wedi'u trefnu trwy gydol y cyfnod. Mae hyn yn golygu bod pobl yn dal i wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus a'u bod mor brysur ag y dymunant fod.

Mae mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith ac mae'r holl weithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol. Mae'n ofynnol i ymwelwyr ddarparu tystiolaeth o brawf llif unffordd neu brawf PCR negatif a chael eu tymheredd wedi'i gymryd. Mae hylif diheintio dwylo ar gael drwy'r cartref gyfan. Fodd bynnag, mae angen gwella'r gorsafoedd cyfarpar diogelu personol o amgylch y cartref.

Mae gan weithwyr gofal wybodaeth dda o ran diogelu a phwysigrwydd adrodd am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth amddiffyn pobl rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Gwelsom fod mesurau rheoli heintiau priodol ar waith a bod staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli heintiau.

## Gofal a Chymorth

Caiff cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, ond mae angen gwella gwybodaeth cofnodion dyddiol; ychydig iawn o fanylion, os o gwbl, sydd mewn rhai cofnodion o'r hyn y mae pobl wedi'i wneud / ei fwyta / ei yfed yn ystod eu diwrnod. Adolygir cynlluniau personol yn unol â'r rheoliadau ac wrth i anghenion yr unigolyn newid. Cwblheir asesiadau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol pob unigolyn ac asesiadau risg cyfoes sy’n cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys lle mae’r unigolyn mewn perygl o gwympo oherwydd llai o ymwybyddiaeth o’i amgylchoedd.

Mae staff yn deall pwysigrwydd maeth a hydradu da i ddiwallu anghenion maethol pobl. Pan fo angen, cyfnerthir prydau gan ddefnyddio hufen a menyn a darperir deietau arbennig. Mae prydau'n cael eu paratoi gan ddefnyddio cynhwysion ffres, heb fawr o ddibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu. Mae pobl yn canmol y prydau yn llwyr â sylwadau fel *“mae’r bwyd yn flasus”* ac *“Mae’r bwyd yn wych – dwi wedi bwyta pethau yma na fyddwn i wedi breuddwydio eu cael o’r blaen, fel heddiw dwi’n cael ffagots, stwnsh, pys a grefi. Fyddwn i ddim yn ei gyffwrdd o’r blaen ond dyma’r trydydd tro i mi ddewis cael hwn ac mae’n hyfryd.”*

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal wedi cwblhau cyfnod sefydlu a rhaglen hyfforddi sy'n cwmpasu'r hyfforddiant gorfodol sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau. Mae gan weithwyr gofal ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo, a dangosant barch ac amynedd wrth ryngweithio â phobl. Roedd awyrgylch hapus a hwyliog iawn gyda phobl yn cael hwyl â staff ac yn cael sgyrsiau cyffredinol bob dydd nad oeddent yn cael eu harwain gan dasg. Mae'r cartref yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, heb i bobl orfod gofyn amdano.

Mae'r darparwr â pholisïau a gweithdrefnau manwl er mwyn rheoli risgiau o ran heintiau. Mae arferion hylendid da trwy gydol y cartref a gall gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae'r holl fesurau'n cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag heintiau COVID-19, gan gynnwys monitro a phrofi pob ymwelydd i'r cartref a defnydd rheolaidd o gyfarpar diogelu personol gan yr holl weithwyr gofal.

Mae'r rheolwyr yn asesu'r lefelau staffio yn rheolaidd i sicrhau bod lefel y gofal a ddarperir yn y cartref yn cael ei chynnal wrth i anghenion pobl newid.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cynorthwyo eu hiechyd, eu diogelwch, eu diogeled a’u llesiant.

Gwelsom fod y cartref yn lân a chartrefol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Mae arferion glanhau yn y cartref wedi newid, er mwyn ystyried mesurau glanhau ychwanegol oherwydd COVID-19. Trafodwyd hyn gyda'r unigolyn cyfrifol / y rheolwr. Gwelsom gofnodion o wiriadau cynnal a chadw, gan gynnwys profion dyfeisiau cludadwy a phrofion diogelwch tân, ac roedd y rhain i gyd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid da ac mae'n rhaid i ymwelwyr â'r cartref ddangos tystiolaeth o brawf llif unffordd neu brawf PCR negatif a chael eu tymheredd wedi'i gymryd. Mae hylif diheintio dwylo ar gael ac mae cyflenwad da o fenig a masgiau.

Mae ystafelloedd gwely pobl wedi'u personoli â'u dodrefn (os ydyn nhw eisiau), addurniadau a lluniau eu hunain. Mae angen rhywfaint o waith atgyweirio mewn rhai ystafelloedd lle mae difrod i'r waliau, ac mae'r unigolyn cyfrifol wedi ein sicrhau y bydd hyn yn cael ei drwsio.

Gwelsom fod arferion rheoli heintiau yn dda iawn yn y cartref a gwelsom fod cyfleusterau diheintio dwylo ar waith trwy'r cartref. Mae angen storio'r cyfarpar diogelu personol sydd ar gael ym mhob rhan o'r cartref yn gywir mewn gorsafoedd cyfarpar diogelu personol addas. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ein sicrhau ei fod am fynd i'r afael â hyn.

Mae pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch ar y drws ffrynt cyn cael mynediad a chofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn a gadael. Mae cofnodion gofal yn cael eu cadw'n ddiogel ac ar gael i weithwyr gofal awdurdodedig yn unig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau ar waith sy'n helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio, yn ogystal â'i ddatblygu'n barhaus, ond mae angen gwella hyn. Yr unigolyn cyfrifol yw rheolwr y gwasanaeth hefyd felly mae'n bresennol bron bob dydd. Nid welsom unrhyw dystiolaeth o ymweliad swyddogol gan yr unigolyn cyfrifol nac adroddiad ansawdd gofal ers mis Mehefin 2021. Roedd hyn yn ystod anterth y pandemig ac ymweliadau rhithwir oedd y ffordd fwyaf diogel o gynnal goruchwyliaeth, ond, gan mai'r unigolyn cyfrifol yw'r rheolwr hefyd, ac wedi'i leoli yn y gwasanaeth, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth bod yr unigolyn cyfrifol wedi cwblhau ei ddyletswyddau rheoleiddio ers mis Mehefin 2021. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol ac mae wedi ein sicrhau y bydd yn dechrau ar yr ymweliadau unigolyn cyfrifol ac adroddiadau ansawdd gofal. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

*"Mae'n rhoi boddhad", "helpu pobl i fyw bywyd boddhaus a gwella ansawdd cyffredinol", "Boddhad yn y swydd trwy sicrhau bod lefelau gofal yn cael eu bodloni i safon dda."* Mewn sgyrsiau â gweithwyr gofal, dywedasant, *"Mae'r unigolyn cyfrifol / rheolwr ar gael bob amser yn ddi-ffael; hyd yn oed pan nad yw yn y cartref yn gorfforol, mae modd cysylltu ag ef dros y ffôn."*

Mae gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol wrth gadw pobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac maent yn teimlo'n hyderus o ran ei defnyddio os bydd angen. Byddent yn mynd at y rheolwr, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent yn credu bod angen iddynt wneud hynny.

Mae gweithwyr gofal wedi derbyn hyfforddiant sefydlu a fydd yn eu galluogi i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r matrics hyfforddi a welwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos bylchau mawr yn yr hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol fel diogelu a rheoli heintiau. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Roedd y matrics goruchwylio staff a ddarparwyd i AGC yn dangos y dyddiadau goruchwylio arfaethedig. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth un i un chwarterol, felly ni ellir dangos tystiolaeth bod anghenion hyfforddi a datblygu staff yn cael eu monitro i sicrhau bod gan staff gofal y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu'r gofal sydd ei angen. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 36 | Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth chwarterol ac mae bylchau mawr yn hyfforddiant y staff. | Newydd |
| 73 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod yr unigolyn cyfrifol wedi cwblhau ymweliad Rheoliad 73 ers mis Mehefin 2021. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal ers mis Mehefin 2021. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/02/2022